

ADRODDIAD I'R CABINET

13 Ionawr 2015

Aelod Cabinet: Cyngorydd Gareth Thomas

Pwnc: Dyfodol darpariaeth addysg anghenion arbennig ym Meirionnydd a Dwyfor

Swyddog cyswllt: Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol
Garem Jackson – Swyddog Gwella Ansawdd Addysg / Arweinydd Prosiect

Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

- A) Fel mater o drefn ffurfiol, yn dilyn cyfnod Rhybudd Statudol, gofynnir i'r Cabinet gadarnhau yn derfynol y cynnig i ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i'r safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth ar 1 Medi 2016, cynyddu capasiti yr ysgol ac ychwanegu elfen breswyl i'r ddarpariaeth.
- B) Dyrannu cyfalaf ychwanegol i ymdopi gydag effaith chwyddiant ac felly osgoi gorfod torri ar rai o allbynnau creiddiol y cynllun.

Barn yr aelod lleol

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

A) Cadarnhau yn derfynol y cynnig i ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i'r safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth ar 1 Medi 2016, cynyddu capasiti yr ysgol ac ychwanegu elfen breswyl i'r ddarpariaeth.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol adroddwyd yn ôl i Cabinet ar 16 Medi 2014 gyda sylwadau budddeiliaid ac Estyn ac ymateb Cyngor Gwynedd iddynt.
- 1.2 Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr adroddiad oedd yn cynnwys ymateb y Cyngor i sylwadau dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion Adran 44 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion (Cymru) 2013, a cymeradwyo cynnal cyfnod Rhybudd Statudol ar y cynnig i ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth ar 1 Medi 2016, cynyddu capasiti yr ysgol ac ychwanegu elfen breswyl i'r ddarpariaeth.
- 1.3 Cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad.

2. Rhybudd Statudol

- 2.1 Cyhoeddwyd y Rhybudd Statudol ar 21 Tachwedd 2014.
- 2.2 Gosodwyd y Rhybudd Statudol mewn manau amlwg yn Ysgol Hafod Lon, Y Ffor, Uned Tŷ Aran, Dolgellau ac wrth safle arfaethedig yr ysgol newydd ym Mharc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth.

- 2.3 Dosbarthwyd copïau caled o'r Rhybudd Statudol i lywodraethwyr, staff a rhieni perthnasol.
- 2.4 Rhoddwyd y Rhybudd ar wefan y Cyngor ac e-bostiwyd y Rhybudd i buddeiliaid perthnasol eraill, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) Llywodraeth Cymru.
- 2.5 Bu cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r rhybudd statudol (21 Tachwedd – 19 Rhagfyr 2014) i unrhyw rai wrthwynebu'r cynnig.
- 2.6 Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu hwn.
- 2.7 Gan na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gofynnwn i'r Cabinet gymeradwyo yn derfynol yr argymhelliad i ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth ar 1 Medi 2016, cynyddu capasiti yr ysgol ac ychwanegu elfen breswyl i'r ddarpariaeth.

3. Cyllid Llywodraeth Cymru

- 3.1 Yn dilyn cyflwyno achos fusnes i Llywodraeth Cymru rydym wedi derbyn cadarnhad fod eu Panel Buddsoddi Cyfalaf wedi cymeradwyo'r cais am gyfraniad o £6.2m o Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif tuag at gostau cyfalaf datblygu'r darpariaeth newydd.

B) Dyrannu cyfalaf ychwanegol i ymdopi gydag effaith chwyddiant ac felly osgoi gorfod torri ar rai o allbynnau creiddiol y cynllun

- 4.1 Cyflwynwyd adroddiad i Gabinet Anffurfiol ar 3ydd Rhagfyr 2014 yn nodi, yn dilyn proses dendro o dan reolau OJEU, fod y tendr a ddaeth i'r brig oddeutu £0.9m yn uwch na chyllideb wreiddiol y prosiect, sef £12.4m. Adroddwyd mai'r prif reswm am hyn oedd chwyddiant gan nodi fod chwyddiant sylweddol o 9.4% wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf yn y maes adeiladu yn yr ardal yma yn benodol.
- 4.2 Cyn y Nadolig, bu proses o negodi ffurfiol gyda'r cwmnïau gyflwynodd dendr er mwyn ceisio lleihau'r gost. Gwyddom na fyddai'n bosib cyrraedd ffigur sydd o fewn y gyllideb heb orfod torri nôl ar rai o brif allbynnau'r prosiect h.y. lleihau'r adnoddau arbenigol, lleihau'r niferoedd plant, hepgor y gofal ysbaid ayb, ac y byddai toriadau o'r natur yma yn debygol o gael effaith andwyol ar yr achos fusnes ac yn creu risg o orfod ail ymgynghori ac ail gyflwyno'r achos fusnes i Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn ychwanegu misoedd lawer i amserlen y prosiect.
- 4.3 Fodd bynnag, yn dilyn negodi, rydym wedi gallu lleihau'r bwlch o £0.95m i fwllch o £0.55m.
- 4.4 Yn yr un cyfnod cyflwynwyd cais i Llywodraeth Cymru i ariannu 50% o'r bwlch. Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau na fyddant mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ar hyn tan ddiwedd Ionawr 2015.
- 4.5 Oherwydd na fyddwn yn gwybod os bydd Llywodraeth Cymru yn cyfranu cyllid ychwanegol tan ar ol cyfarfod y Cabinet, mae'r swm sydd angen i'r Cyngor glustnodi yn aneglur ar hyn o bryd. Gwyddom fod y swm wedi ei leihau i £0.55m a dyma fydd y sefyllfa ar ei gwaethaf. Os daw cyfraniad o 50% gan y Llywodraeth yna bydd y swm yn lleihau eto i £0.275m

5. CRYNODEB A CAMAU NESAF

- 5.1 Pe byddai'r Cabinet yn cymeradwyo'r argymhelliad i ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth ar 1 Medi 2016, cynyddu capasiti yr ysgol ac ychwanegu elfen breswyl i'r ddarpariaeth, mi fyddwn yn hysbysu Llywodraeth Cymru a chyrrff perthnasol eraill o'r penderfyniad terfynol.
- 5.2 Bydd cyfnod trosiannol rhwng y penderfyniad terfynol a gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2016. Bydd cymorth i'r pennaeth, staff, llywodraethwyr, rhieni a plant sydd yn gysylltiedig a'r cynnig yn ystod y cyfnod trosiannol yma.

6. ARGYMHELLION

- 6.1 Yn dilyn derbyn dim gwrthwynebiad i'r Rhybudd Statudol, yn unol ag adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gofynnir i'r Cabinet gadarnhau yn derfynol i ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i'r safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth ar 1 Medi 2016, cynyddu capasiti yr ysgol ac ychwanegu elfen breswyl i'r ddarpariaeth.
- 6.2 Cymeradwyo i ddyrannu cyllid cyfalaf ychwanegol o rhwng £0.275m a £0.55m i ymdopi ag effaith chwyddiant ar gynllun Ysgol Arbennig Meirion Dwyfor.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Sylwadau'r Prif Weithredwr

Mae hwn yn gam pellach yn y broses o wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig ym Meirionydd a Dwyfor yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Rwy'n croesawu'r symudiad yn fawr iawn.

Swyddog Monitro

Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun arweiniad gan y Gwasnaeth Cyfreithiol ac felly nid oes gennyf sylwadau pellach i'w cynnig o safbwynt priodoldeb.

Pennaeth Cyllid

Nid yw'r model ariannol wedi newid o safbwynt costau ac arbedion refeniw ers yr adroddiad blaenorol i'r Cabinet ar 16 Medi 2014. Roedd yr adroddiad hwnnw yn amcangyfrif y byddai arbediad blynyddol "posib" o £101,574, ond nodais ar y pryd fod risg gan nad oes sicrwydd bydd modd denu'r incwm all-sirol perthnasol i'r Cyngor ac fy mod ar ddeall fod yr Adran Addysg a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi ystyried y cynllun yn drylwyr o fewn eu strategaeth arbedion, a'u bod yn glir mai'r Adrannau hyn fydd yn gyfrifol am ganfod unrhyw ddiffyg yng nghostau rhedeg yr ysgol newydd. Felly, gan mai ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes wedi derbyn sylw trylwyr yn flaenorol y mae Argymhelliad 'A', nid oes gennyf sylwadau pellach ar yr agwedd yma.

O safbwynt Argymhelliad 'B', bydd y Cabinet yn gweld o'r adroddiad fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cais am gyfraniad o £6.2m tuag at y costau cyfalaf, ond ar ôl y broses tendro mae'r cyllideb gyfalaf yn fyr o £550,000. Ni fyddwn yn gwybod tan fis Ionawr os bydd ein cais am gymorth

pellach gan Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus, ond yn y cyfamser os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r swm ychwanegol o hyd at £550,000 bydd yr angen ychwanegol yn cael ei ystyried yng nghyd-destun blaenoriaethau'r Cynllun Rheoli Asedau. Gwelir o'r adroddiad fod y bwlc h ariannu wreiddiol yn £950,000 a hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad i'r rhai fu'n negodi er mwyn dod â'r pris i lawr heb, mae'n ymddangos, effeithio ar ansawdd yr addysg i'r disgyblion.

ATODIADAU

(l'w gweld ar wefan y Cyngor drwy'r linciau penodol isod)

1) Adroddiad Cabinet 10^{fed} Mehefin 2014

https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau.aspx?pwylgor=/2014-15/Cabinet_Cabinet/2014-06-10

2) Adroddiad Cabinet 16^{eg} Medi 2014

https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau.aspx?pwylgor=/2014-15/Cabinet_Cabinet/2014-09-16

3) Y Rhybudd Statudol

<https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Ad-drefnu/Ysgol-Arbennig-Meirion-Dwyfor/Rhybudd-Statudol.pdf>